

# **Gofal a pharch bob amser**

**Beth y gallwch ei ddisgwyl gan nyrsys**

## **Pobl**

### **Dylech gael gofal gan nyrsys medrus:**

- sydd â'r wybodaeth, y sgiliau, a'r awydd i ddarparu gofal o safon uchel sy'n diwallu eich anghenion unigol
- sy'n dweud wrth eu cydweithwyr yn syth os ydynt yn eu gweld yn darparu gofal gwael neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi trallod i chi
- y gellir ymddiried ynddynt, sy'n ddibynadwy ac yno i chi pan fydd eu hangen arnoch
- sy'n dangos empathi, trugaredd a charedigrwydd.

## **Proses**

### **Dylech gael gofal sy'n gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a'ch trin fel unigolyn, gan nyrsys sy'n:**

- gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud, gan gymryd amser i gyfathrebu yn y ffordd sydd orau i chi
- holi chi, ac eraill sy'n bwysig i chi, sut yr hoffech i'r nyrsys ofalu amdanoch
- darparu gofal mewn ffordd sy'n parchu eich hawl i breifatrwydd ac urddas
- gweithio gyda chi, a'r bobl sy'n bwysig i chi, drwy sicrhau yr ystyrir eich dymuniadau pan gaiff penderfyniadau eu gwneud.

## **Lle**

### **Ble bynnag y byddwch yn cael gofal gan nyrs, dylech:**

- deimlo eich bod mewn dwylo das
- credu bod eich anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn ffordd deg a pharchus ac nad ydych yn cael eich barnu
- teimlo'n hyderus bod y nyrsys a'r offer sydd eu hangen arnoch ar gael
- teimlo'n ffyddiog bod y nyrsys yn ymroddedig i sicrhau y darperir gofal o safon uchel.

Mae nyrsys yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ofalu am bobl hyn. Gall gofal nyrsio da wneud gwahaniaeth mawr i ansawdd eich bywyd. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r gofal y dylech ei ddisgwyl mewn unrhyw leoliad lle mae nyrs yn gofalu amdanoch.

**Mae tri pheth a all wneud gwahaniaeth go iawn i'r gofal a gewch.**

## **Pobl**

y nyrsys sy'n gofalu amdanoch

## **Proses**

sut mae nyrsys yn gofalu amdanoch

## **Lle**

ble mae nyrsys yn gofalu amdanoch

## **Safonau nyrsio**

**Mae parch tuag at bob person fel unigolyn yn ganolog i'r Cod nyrsys ac i'r canllaw y mae'r daflen hon yn seiliedig arni.**

Gallwch ddarllen y Cod: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwagedd a'r Canllaw ar ofalu am bobl hyn ar ein gwefan, [www.nmc-uk.org](http://www.nmc-uk.org)

Cysylltwch â ni os oes angen y daflen hon arnoch mewn print bras neu fformat arall.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am y gofal nyrsio rydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod wedi'i gael, dylech ddweud wrth rywun.**

Y person sy'n gyfrifol am y tîm nyrsio yw'r person gorau i siarad ag ef. Os nad ydych yn teimlo y gallwch godi eich pryderon ag ef a byddai'n well gennych siarad â rhywun annibynnol, cysylltwch â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.